# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

**COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 9fed O RAGFYR 2025 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.**

1. **Presennol** - Ceri Owen (is-gad), Justin Davies, Celfyn Roberts, Barry Bracegirdle, Erfyl Williams - Penygroes, Harry Owen, Gareth Jones, Nigel Williams, Siân Dafydd - Talysarn, Dafydd Thomas - Nebo, Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Tesni Glyn - Llanllyfni, Cyng. Peter Thomas.

**Ymddiheuriadau** -Judith Humphreys – Penygroes.

Bu i'r gadeiryddes Siân Dafydd ymddiheuro y buasai yn cyrraedd yn hwyr felly bu i Ceri Owen (is-gadeirydd) gadeirio'r cyfarfod hwn.

Rhoddwyd croeso i Darron Roberts aelod o'r cyhoedd i'r cyfarfod er mwyn trafodaeth cais cynllunio Bron Y Foel Nebo.

2. **Datgan buddiant** – Ceri Owen – pwynt 11 cais cynllunio Yr Afr Penygroes.

3. **Cofnodion cyfarfod 11eg o Dachwedd 2025** - Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion** - **Cae Brenin Siôr, Llanllyfni -** nid oedd ymateb wedi dod gan swyddogion Cyngor Gwynedd am ein cais i gael defnyddio'r tir hwn pan fo'r angen, y clerc i ail-gysylltu â hwy am hyn. **Diweddariad Canolfan Lles** - dim ymateb wedi dod gan Grŵp Cynefin am ddiweddariad ar sefyllfa'r ganolfan les, y clerc i ddilyn fyny ar hyn. **Mynwent Gorffwysfa -** y clerc wedi derbyn manylion heddiw ar bwy i gysylltu ynglŷn â chael cymorth gyda symud ymlaen i gael estyniad ar fynwent Gorffwysfa. Angen amser i edrych fewn i hyn yn fwy manwl.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas. Aethpwyd drwy'r adroddiad a rhoi cyfle i bawb godi unrhyw sylwadau. Diolchwyd i Cyng. Thomas am ei waith.

11. **Ceisiadau Cynllunio** - gan fod aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar gyfer y pwynt hwn, penderfynwyd dod a'r mater yma ynghynt ar yr agenda.

Bryn Hwylfa, Penygroes – codi adeilad amaethyddol – DIM GWRTHWYNEBIAD

Bron Y Foel, Nebo - trosi ystafelloedd storfa i lety gwyliau. Roedd y Cyngor Cymuned wedi derbyn gwrthwynebiad gan aelodau o'r cyhoedd i'r cais hwn, a bu i un aelod o'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod i wrando ar y drafodaeth. Darllenodd y cadeirydd yr e-byst a oedd wedi eu derbyn a thrafodwyd. Roedd pryderon yn cael eu codi ynglŷn â'r ffordd sydd yn mynd i'r eiddo. Yn dilyn trafodaeth bellach cynigwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd am gadarnhad os bydd y cais hwn yn cael ei basio yna bydd rhywbeth yn cael ei wneud am y ffordd ac iddynt ystyried yr effaith y bydd trafnidiaeth bellach yn ei gael. Eiliwyd y cynnig hwn. Diolchwyd i Mr Roberts am fod yn bresennol a diolchodd yntau am y cyfle. Bu iddo adael y cyfarfod.

Yr Afr, Penygroes - newid defnydd fflat ar y llawr cyntaf yn ystafelloedd gwesteion - bu i Ceri Owen adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth yma. Trafodwyd ac nid oedd DIM GWRTHWYNEBIAD gan mai gwesty oedd yma gynt.

31 Coed Madog, Talysarn – estyniad deulawr i gefn y tŷ – DIM GWRTHWYNEBIAD.

Bu i Siân Dafydd gyrraedd y cyfarfod.

6. **Enwebiadau Sedd Wag Nantlle** - yn dilyn hysbysebu fod sedd wag ar gyfer ward Nantlle ar y Cyngor Cymuned bu i ddau enw gael eu derbyn ar gyfer y sedd. Trafodwyd y ddau gais a phenderfynwyd cynnal pleidlais gudd. Bu i'r clerc gyfrif y pleidleisiau a bydd y sedd yn cael ei chynnig i David Jones a oedd wedi derbyn y rhan fwyaf o'r pleidleisiau. Y clerc i gysylltu â Mr Jones i'w wahodd i'r cyfarfod nesaf fel cynghorydd ar ward Nantlle. Hefyd, y clerc i gysylltu â'r ymgeisydd arall i ddiolch am ddangos diddordeb ac efallai y daw cyfle eto i gyd-weithio.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________

7. **Cofeb er cof am OP Huws** - bwrdd Antur Nantlle wedi cysylltu yn gofyn a fuasai gan y Cyngor Cymuned ddiddordeb mewn gwneud rhywbeth ar y cyd i gael cofeb er cof am y diweddar OP Huws. Trafodwyd a phenderfynwyd cyd-weithio ag Antur Nantlle. Y clerc i gysylltu i ddatgan hyn a thrafod i gynnal cyfarfod.

8. **Materion Pentrefi** - **Nebo –** adroddodd Dafydd Thomas ei fod wedi bod mewn cyfarfod ymgynghori cau ysgol nebo cyn dod i'r cyfarfod hwn. Bydd yr ymgynghoriad yn parhau ar chwech wythnos rwan. **Penygroes –** coeden wedi disgyn wrth y grisiau ger Wynnstay ac angen ei symud gan ei bod yn beryglus. Hefyd, gofyn a oes posib torri y gwair ar y boncen wrth Wynnstay gan ei bod yn flêr yno. Ffordd Y Sir – gofyn a oes posib ymestyn y llinellau dwbl melyn wrth ochr yr hen fferyllfa gan bod pobl yn parcio yno ac yn beryglus. Cwynion wedi ei derbyn am campervan a lori sydd yn parcio ar top y stryd sydd yn beryglus ac yn blocio y palmentydd. Cynnigwys y dylid llythyru y cwmni loriau i weld beth ellir ei wneud am hyn. Cwynion wedi ei derbyn bod y toiledau yn Garej Povey wedi cloi a dim ar gael i'r cyhoedd eu defnyddion. Y clerc i gysylltu â Cyngor Gwynedd i holi os ydynt yn derbyn y grant i bobl ddefnyddio y toiledau. **Llanllyfni –** gofyn a oes modd cael cerbyd allan i lanhau Lôn Ddŵr yn dilyn y llifogydd diweddar. Hefyd, diolch yn fawr iawn am y golau nadolig newydd. **Talysarn –** adroddwyd bod yna rai o'r tyllau yn y ffyrdd wedi eu llenwi erbyn hyn. Y clerc wedi derbyn gwybodaeth bod swyddog o'r cyngor yn mynd i fod yn cerdded y pentref yn y dyddiau nesaf er mwyn asesu y ffyrdd a bydd yn adrodd yn nôl yn dilyn ei asesiad.

9. **Taflen ariannol a chyllid** - Pawb wedi derbyn copi o'r daenlen i edrych drosti. **Safleoedd bysiau Penygroes -** Mater a oedd wedi ei godi oedd bod y safle bws ym Mhenygroes wedi ei ddifrodi unwaith eto. Roedd y clerc wedi derbyn dau bris ar gyfer ei atgyweirio ond codwyd y mater bod y cyngor wedi penderfynu peidio ag gwario dim mwy ar y safleoedd bws. Os nad oes chwe mis wedi mynd heibio ers pasio hyn yna nid oes modd gwario. Cynnigwyd y dylid edrych nôl ar y cofnodion i weld pryd y trafodwyd y mater hwn ac yna ail-edrych ar y sefyllfa ym mis Ionawr. **Grant Gwynedd Ni -** adroddwyd bod y potiau, compost a blodau/planhigion nawr wedi cyrraedd a nawr angen ei llenwi a'u gosod o gwmpas y pentrefi. Rhaid i'r gwaith gael ei orffen cyn 31 o Ragfyr er mwyn cael yr arian grant sydd wedi ei glustnodi. Trafodwyd a phenderfynu dechrau grŵp what's app er mwyn trefnu dyddiadau ayyb ar gyfer gwneud y gwaith hwn. **Clwb Ieuenctid -** angen holi am ddiweddariad ar y clwb a chael anfoneb gan Gyngor Gwynedd er mwyn cael ei dalu cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

10. **Llwybrau a Mynwentydd** - cwynion wedi eu derbyn bod tyrchod daear yn creu llanast ym Mynwent Macpela. Trafodwyd y mater, cynigwyd i ofyn i'r contractwyr torri gwair am bris i ddelio a'r broblem. Cytunwyd os yw'r pris o dan £500 yna i'r clerc ddweud wrthynt barhau.

11. **Ceisiadau Cynllunio** – wedi eu trafod ynghynt yn y cyfarfod.

12. **Gohebiaeth** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis ac aethpwyd drwyddynt a rhoi cyfle i unrhyw un godi unrhyw beth

13. **Materion ariannol** - cytunwyd i dalu'r isod.

- Nia Jones - ffôn a gwe = **£25.00**
- Steven Lewis – gwaith ychwanegol = **£1525.00**
- Cyngor Gwynedd – gosod arwydd cyflymder Nantlle = **£1557.17**
- R J Electrics - Gosod, tynnu a storio golau Nadolig = **£3744.00**
- Nia Jones – golau Nadolig i Nantlle a Nebo = **£28.46**

14. **Unrhyw fater arall** - cynnigwyd efallai y buasai yn syniad cyd-weithio ag Ysgol Dyffryn Nantlle i roi gwaith celf disgyblion yr ysgol ar baneli'r safleoedd bysiau - efallai y buasai hyn yn arbed y fandaliaeth.

15. **Tir Cwtin** - bu i Justin Davies adael y cyfarfod am y drafodaeth hon. Yn dilyn derbyn e-bost gan ein cyfreithwyr ynglŷn â'r "community benefit agreement" (CBA) trafodwyd y mater a bydd y clerc yn ymateb i'r e-bost.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod a dymunwyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 13eg o Ionawr 2026 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________